



Bannau
Brycheiniog

Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Adroddiad ar gyfer y flwyddyn, yn gorffen ar y 31ain o Fawrth 2024

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
Ynglŷn â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy	2
Aelodau Pwyllgor CDC 2023-24	3
Trosolwg 2023-24	4
Dangosyddion Perfformiad a Mesurau Allbwn	5
Taliadau Grant	7
Crynodebau Prosiect	10
	29



Rhagair y Cadeirydd

Mae'r rheini ohonom sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yma ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyfrif ein hunain yn ffodus iawn. Ym mhob cyfarfod, rydym yn darllen am y gwaith anhygoel a chreadigol a wneir gan wirfoddolwyr a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'w cymunedau – weithiau rydyn ni hyd yn oed yn cael cwrdd â nhw. Maen nhw'n bwrw ati'n dawel gyda'u gwaith gydag ymrwymiad enfawr, ac anaml iawn y maen nhw'n gwneud y newyddion - er y dylen nhw! Mae'n donig go iawn gwybod bod pobl yn gweithio'n anhunanol ledled y Parc Cenedlaethol (a thu hwnt) i wneud pethau'n well i'w cymdogion, ymwelwyr a'r amgylchedd lleol. Mae'r rhain yn wneuthurwyr newid go iawn ac maent yn gwella ansawdd bywyd i bob un ohonom.

Rydym wedi parhau i gefnogi ystod eang o brosiectau cymunedol a threftadaeth fel y darllenwch isod, a bu ffocws cryf parhaus ar effeithlonrwydd ynni eleni. Rydym i gyd yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth a'r camau gweithredu a nodir yn Y Bannau – Y Dyfodol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gyda'r nod allweddol o leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau. Roeddem yn falch iawn o dderbyn grant Cronfa Ffyniant Gyffredin a ariannwyd gan Lywodraeth y DU drwy Gyngor Sir Powys yn ystod y flwyddyn i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau cymunedol. Bydd hyn yn cefnogi archwiliadau ynni, cymorth gweithredu a gosod – mwy am hyn y flwyddyn nesaf!

Diolch i bawb sy'n helpu i wneud y Gronfa hon yn llwyddiant - yn bennaf oll y gwirfoddolwyr ac arweinwyr ysbrydoledig yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol. Rydw i hefyd yn ddiolchgar i'm cyd-Aelodau Pwyllgor CDC y Parc Cenedlaethol a'r Panel Cyngori ar Grantiau - mae eu sgiliau a'u harbenigedd yn amhrisiadwy. Mae ein tîm Swyddogion ymroddedig yn cefnogi ymgeiswyr y Gronfa ar bob cam a gwerthfawrogir eu hanogaeth, fel y darllenwch isod.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y gwaith a wnaed gan gymunedau'r Parc Cenedlaethol yn 2023-24 – rydym yn falch iawn o chwarae rhan fach i'w cefnogi.

Y Cyngorydd Peter Baldwin, Cadeirydd CDC



Ynglŷn â'r Gronfa

Datblygu Cynaliadwy

Yn cefnogi cymunedau'r Parc ers 24 mlynedd bellach, mae'r Gronfa'n cael ei rheoli gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r Awdurdod gyda chyfraniad ac arweiniad gwerthfawr cydweithwyr arbenigol.

Dros y blynyddoedd, mae wedi cefnogi ystod eang o brosiectau sy'n ein helpu i fyw'n fwy cynaliadwy mewn ardal o harddwch naturiol ac amrywiaeth arbennig. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag ymgeiswyr i gynnig cymorth datblygu a gwneud cysylltiadau. Mae croeso i ymgeiswyr sy'n newydd i'r maes codi arian!

Prosiectau CDC llwyddiannus:

- Cefnogaeth a phartneriaethau cymunedol – dod â phobl a sefydliadau ynghyd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol
- Cysylltu materion cymdeithasol/diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, a strategaethau lleol a chenedlaethol eraill

Pwyllgor ac Aelodau Panel CDC 2023-24

Caiff ceisiadau eu hystyried mewn cyfarfodydd ar y cyd (5 bob blwyddyn fel arfer) fel a ganlyn:

- Panel Cyngori ar Grantiau gydag arbenigwyr pwnc a chynrychiolwyr Cyngorau Tref a Chymuned, a
- Pwyllgor Aelodau CDC y Parc Cenedlaethol
- Rydym yn ddiolchgar am wybodaeth, mewnwelediad ac ymrwymiad pob aelod o'r Pwyllgor a'r Panel.

Pwyllgor Awdurdod Parc Cenedlaethol	Panel Cyngori ar Grantiau
Y Cyngoryddlain McIntosh Cyngor Sir Powys Cadeirydd CDC - Ymddiswyddodd Ebrill 2023	Mike Wright The Charter Group
Y Cyngorydd Peter Baldwin CBS Blaenau Gwent Cadeirydd CDC - O Ebrill 2023	Y Cyngorydd Bernard Watkins Cyngor Cymuned Maes-car
Y Cyngorydd Edwin Roderick Cyngor Sir Powys	Sarah Coakham Cyfoeth Naturiol Cymru Ymddiswyddodd Tachwedd 2023
Y Cyngorydd Jeremy Davies CBS Merthyr Tudful	Aled Davies Cyfoeth Naturiol Cymru Penodwyd Ionawr 2024
Y Cyngorydd William Powell Cyngor Sir Powys	Abi McCullough – Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys
Yr Athro John Hunt Llywodraeth Cymru	Andrew King Cofnodwr Adar Brycheiniog
Dr. Yvonne Howard-Bunt Llywodraeth Cymru Ymddiswyddodd Awst 2023	Y Cyngorydd Chris Walsh, Cyngor Tref Aberhonddu
Steve Rayner Llywodraeth Cymru Penodwyd Awst 2023	Y Cyngorydd Richard Dixon Cyngor Cymuned Llanelli
	Margaret Underwood Sector Gwirfoddol Ymddiswyddodd - Ebrill 2023

Trosolwg 2023 - 24

Gwnaed 13 o ddyfarniadau grant newydd yn ystod y flwyddyn, a thalwyd cyfanswm o £114,727 i gefnogi 27 o brosiectau (gan gynnwys grantiau a ymrwymwyd mewn blynyddoedd blaenorol). Gwnaeth taliad o £2,805 i gefnogi rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol Awdurdod y Parc Cenedlaethol - 2.4% o gyfanswm y taliadau a wnaed.

Gyda phwysau ariannu'r sector cyhoeddus yn parhau, roedd gan y Gronfa ddyraniad is am y flwyddyn gyda £50,000 i'w fuddsoddi mewn prosiectau newydd. Roeddem yn falch o sicrhau grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) ym mis Gorffennaf 2023 i barhau i ddatblygu ein rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol. Mae'r CFfG yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gyngor Sir Powys - rhaid ymrwymo, gwario a hawlio arian erbyn 31 Rhagfyr 2024.

Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Erbyn diwedd Mawrth 2024, roedd archwiliadau ynni wedi'u cwblhau ar gyfer 15 adeilad cymunedol ledled y Parc Cenedlaethol – gyda dyraniad ychwanegol o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi pum grŵp o fewn y Parc y tu allan i ffin Powys. Bydd cyfranogwyr yn parhau i dderbyn cymorth technegol ac mae £72,999 ar gael i gefnogi'r gwaith o osod mesurau blaenoriaeth a nodwyd. Bydd y rhain yn cynnwys mesurau sylfaenol ond hanfodol fel goleuadau LED ac inswleiddiad to – gan ddefnyddio'r egwyddor 'gwneuthuriad yn gyntaf' cyn ystyried ynni adnewyddadwy. Erbyn diwedd Mawrth 2024, roedd yr holl waith a argymhellwyd yn Nhŷ Steeple yn Aberhonddu wedi ei gwblhau – gallwch ddarllen mwy isod! Mae grwpiau eraill yn cwblhau cynlluniau ac yn sicrhau dyfynbrisiau. Bydd y prosiect cyffredinol yn cynnwys datblygu offeryn tracio defnydd ynni ar gyfer grwpiau a gweithdai i gefnogi rheolaeth ynni-effeithlon adeiladau cymunedol.

Mae adeiladau cymunedol wrth galon bywyd cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig - mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi i leihau eu heffaith amgylcheddol a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.



Dangosyddion
Perfformiad a
Mesurau Allbwn


Dangosyddion Perfformiad	Ebrill 2023 – Mawrth 2024
% y penderfyniadau ar geisiadau a gwblhawyd a roddwyd i'r ymgeisydd ar amser – y targed yw 95% o fewn 14 diwrnod i'r Panel eu hystyried ar gyfer ceisiadau dros £2,000.	Hysbyswyd 100% o'r holl ymgeiswyr (o dan a throsh £2k) o fewn 14 diwrnod i'r Panel.
O dan £2,000 – 28 diwrnod ar ôl derbyn y cais wedi'i gwblhau.	100%
Nifer y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd (Llawn-amser neu ran-amser, gan gynnwys dros dro a pharhaol).	40
Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli.	2,487 awr. Cyfraniad sylweddol i fywyd ar draws y Parc Cenedlaethol.

Mesurau Allbwn	Ebrill 2022 – Mawrth 2023
Cyllid a drosglwyddwyd o ffynonellau eraill	Cymhareb 10 : 1 (ar grantiau a dalwyd)
Gwerth rhoddion mewn nwyddau a rhoddion gwirfoddol	£29,852
Cyhoeddus: Cymhareb breifat arian cyfatebol	1:3
Nifer y prosiectau sy'n cefnogi dau neu fwy o'r egwyddorion datblygu cynaliadwy allweddol fel y nodir yn y canllawiau gweithredol.	100%


Taliadau Grant 2023 - 24

Fesul ardal o fewn y Parc Cenedlaethol, roedd y gwariant fel a ganlyn:

Nifer y Prosiectau



% Cyfanswm Gwariant



1	CIC Grwyne Fawr: Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Pen y Cae	£23,176
2	Achub Mynydd Aberhonddu: Pencadlys newydd	£20,000
3	Cyngor Tref Crughywel – Hysbysfwrdd Cymunedol	£1,303
4	Frazz Aberhonddu 2023	£4,695
5	Cerddorfa Bale Gŵyl Aberhonddu	£5,000
6	Cynllun Bro Llangatwg	£1,445
7	Ysgol y Bannau: Ystafell Ddosbarth Awyr Agored, Ardal Wyllt	£3,400
8	Awyr Dywyll Castell y Gelli	£1,434
9	Ffair y Fenni Wyrddach 2023	£1,943
10	Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Llan-gors: Tŷ Crwn y Maes Chwarae	£700
11	Mametz - Reawakened	£3,547
12	Criw Craggy	£917
13	Ty'r Ash	£2,130
	Total	£69,690

Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol

14	Neuadd Bentref Cwmdu	£10,000
15	Neuadd Bentref Felindre	£1,378
16	Biwro Gwirfoddolwyr Aberhonddu	£4,006
17	Toiledau Cymunedol Llangatwg	£5,000
18	Neuadd Bentref Pontneddfechan	£1,685
19	Canolfan Gymunedol Hirwaun	£1,479
20	APCBB – Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol	£2,805
	Total	£26,353
Cronfa Ffyniant Gyffredin		
21	Elusen Edmund Jones: Tŷ Steeple, Aberhonddu	£5,000

Treftadaeth

22	Ffynnon Ddŵr Llangenni	£3,841
23	Ffynnon Ddŵr Llangenni	£1,885
24	Llyfr Talgarth Drwy'r Oesoedd	£2,159
25	Bull's Head, Aberhonddu	£768
26	Remarkable Castles Near Hay on Wye	£2,000
27	Porth Mynwent Eglwys Llanddeti	£3,031
	Total	£13,684



Crynodebau Prosiect

1. CIC Grwyne Fawr: Prosiect Pen y Cae – CIC Grwyne Fawr

Cyfanswm Grant CDC: £25,300 / Taliad Grant yn 2023 - 24: £23,175

Wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2015 i wella'r amgylchedd i drigolion ac ymwelwyr â dyffryn Grwyne Fawr, mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar brosiect mawr dros y blynyddoedd diwethaf i ddechrau ailddedfnyddio ffermdy anghysbell a chyn-ganolfan gweithgareddau awyr agored, Pen y Cae, yng Nghoedwig y Mynydd Du.

Gweithiodd gwirfoddolwyr CIC yn ddiflino i godi arian a thrafod prydles hirdymor gyda'r rheolwr tir, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae gwaith adfer bellach wedi'i gwblhau ar yr adnodd addysgol a chymdeithasol hwn sy'n cysgu hyd at 12 o bobl. Gan gyflogi contractwyr lleol, mae'r cyflenwad dŵr wedi'i adnewyddu a'r adeilad wedi'i ail-blymio. Mae pŵer solar wedi'i osod ynghyd â stôf llosgi coed, popty nwy a goleuadau trydan drwyddi draw. Mae toiledau, cawodydd a sinc y gegin hefyd wedi'u hamnewid. Cyn bo hir, bydd ar gael i ysgolion, myfyrwyr a grwpiau eraill at ddefnydd dydd neu breswyl.

Mae'r grŵp wedi bod yn wydn a phwrpasol drwy'r pandemig Covid a'r anawsterau ymarferol o weithio mewn lleoliad mor anghysbell. "Mae cyrraedd y cam hwn, o ystyried y rhwystrau yr ydym wedi gorfod eu goresgyn hyd yn hyn, yn llwyddiant anhygoel," meddai aelod o'r grŵp, Ian Maberley. "Diolch yn fawr i'r Panel CDC am eu ffydd ynom ni yn ystod Covid a'r oedi dilynol. Allwn ni ddim fod wedi cyflawni hyn fel arall."





2. Achub Mynydd Aberhonddu: Adeilad Pencadlys Newydd

Cyfanswm Grant CDC: £20,000

Wedi'i sefydlu ym 1990, mae Tîm Achub Mynydd Aberhonddu (BMRT) yn cael ei redeg a'i ariannu'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr. Mae'r Tîm yn darparu gwasanaethau chwilio, meddygol ac achub arbenigol ar draws 700 milltir sgwâr o Dde a Chanolbarth Cymru, 24/7, gan weithio'n agos gyda'r Heddlu a'r gwasanaethau Ambiwlans a Thân. Wedi'u lleoli yn Aberhonddu a gyda thîm o tua 60 o bobl, maen nhw'n ymateb i 100+ o ddigwyddiadau bob blwyddyn - nifer cynyddol wrth i fwy o bobl ymweld â chefn gwlad y DU ar ôl Covid. Mae'r economi dwristiaeth yn gynyddol bwysig, ac mae gwaith BMRT yn rhan allweddol o ddiogelu cerddwyr a dringwyr. Mae'r grŵp hefyd yn cynorthwyo'n rheolaidd wrth chwilio am bobl agored i niwed - y rhai sy'n byw gyda dementia, plant coll, neu bobl sy'n hunanladdol. Mae miloedd o fywydau wedi cael eu hachub dros y 3 degawd diwethaf. Mae BMRT hefyd yn ymwneud ag addysg ac ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o'u rhaglen allgymorth.

Erbyn 2021, roedd yn amlwg nad oedd pencadlys y grŵp yn addas at y diben mwyach – roedd yn rhy fach i storio offer a cherbydau (gan arafu'r amser ymateb i ddigwyddiadau), roedd y garej yn rhy fach i wneud gwaith cynnal a chadw ar gerbydau, nid oedd cawodydd i olchi ar ôl achub pobl o afonydd, ac ni allai'r ystafell sychu sychu offer ar gyfer yr achubiad nesaf.

Mae ymdrechion codi arian helaeth a thrawiadol wedi galluogi adeiladu pencadlys ynni-effeithlon newydd ar y safle presennol, ddwywaith maint yr adeilad presennol ond gydag ôl troed carbon isel. Cyfrannodd y grant CDC at fesurau effeithlonrwydd ynni fel goleuadau LED sy'n synhwyro symudiadau, gwresogyddion dŵr di-oed, gwresogi ynni-effeithlon, inswleiddio lloriau, y to a waliau, a gwydr dwbl.

"Roedd ein prosiect yn fawr iawn, ac felly roedd 'na bosibilrwydd bob amser y gallai'r grantiau llai fynd ar goll," meddai'r Gwirfoddolwr Codi Arian Wendy Walton. "Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn gyda'r grant CDC. Roedd yn galonogol iawn derbyn grant gan sefydliad lleol mor bwysig, ac fe wnaeth wahaniaeth mawr i'n hymdrechion codi arian. Roedd hefyd yn gadarnhaol iawn canolbwytio'n benodol ar gynaliadwyedd yn ein prosiect. Roedd hyn bob amser yn ystyriaeth fawr, ond roedd cael grant yn arbennig at y diben hwn yn fuddiol iawn."

3. Cyngor Tref Crughywel: Hysbysfwrdd Cymunedol

Cyfanswm Grant CDC: £1,303

Mae Cynghorwyr Tref yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gynrychioli buddiannau pobl leol ac ymwelwyr, ac maent yn cydweithio â sefydliadau lleol eraill i ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli Parc Gerddi'r Castell, Mynwent Crughywel, asedau lleol fel planwyr a seddi, ac yn cydlynu digwyddiadau fel Dydd y Cofio Blynyddol a'r Nadolig yng Nghrughywel.

Gyda chefnogaeth gan sefydliadau cymunedol lleol, cyfrannodd y grant bach hwn at osod hysbysfwrdd newydd yng nghanol y dref ger y gysgodfan bysiau. Mae'n hyrwyddo amrywiaeth eang o ddiwyddiadau, gwasanaethau a gweithgareddau, gan gynnwys yr ymgynghoriadau Cynllunio Bro diweddar.

4. Frazz Aberhonddu: Gweithdai a Gorymdaith 2023

Cyfanswm Grant CDC: £4,695

Mae Frazz Aberhonddu (Fringe + Jazz = Frazz) yn ymgysylltu â chymuned ehangach Aberhonddu a'r ardal gyfagos yn ystod y cyfnod cyn Gŵyl Jazz Aberhonddu a'r Ŵyl Ymylol gysylltiedig. Yn 2023, cynhaliwyd rhaglen o weithdai celf a chreffft cyfranogol am ddim i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau ledled y dref, gan ganolbwyntio ar wneud gwisgoedd, propiau ac offerynnau yn bennaf o ddeunydd sgrap.

Daeth hyn i ben gyda gorymdaith carnifal drwy Aberhonddu ar ddydd Sadwrn y Penwythnos Jazz, gyda baneri a fflôts heb fodur ar y thema '40 mlynedd o Jazz Aberhonddu', gan helpu i hyrwyddo dealltwriaeth o hanes lleol a chydweithredu ar draws cenedlaethau. Arweiniwyd yr orymdaith gan fand gorymdeithio jazz, ynghyd â band samba lleol. Roedd perfformwyr stryd a diddanwyr yn ychwanegu drama a hwyl. Ni all llawer o bobl o reidrwydd fforddio digwyddiadau â thocyn neu efallai nad ydynt am fynd i dafarndai neu glybiau - felly bob blwyddyn mae parêd y Frazz yn rhoi cyfleoedd creadigol i bawb gymryd rhan, p'un a oes ganddynt diddordeb mewn jazz ai peidio, ac mae'n cynnwys artistiaid, crefftwyr, cerddorion, trefnwyr digwyddiadau, ysgolion a sefydliadau cymunedol.





5. Cerddorfa Bale Gŵyl Aberhonddu

Wedi'i lansio yn 2019, mae Bale Gŵyl Aberhonddu (BFB) yn llwyfannu'r bale poblogaidd The Nutcracker yn ei gyfanrwydd bob Nadolig yn Theatr Brycheiniog, gan alluogi'r gymuned i weld a chymryd rhan mewn dawns a cherddoriaeth broffesiynol o ansawdd uchel nad yw ar gael yn y rhanbarth fel arall. Mae wir yn fenter gymunedol sy'n cynnwys gwirfoddolwyr o bob oed yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol. Mae'r perfformiadau bob amser dan eu sang ac yn dod ag incwm i Theatr Brycheiniog ac yn denu mwy o ymwelwyr i Aberhonddu, gan gynnwys i'w llety ac amwynderau lletygarwch a manwerthu.

Hyfforddodd wyth o ddawnsywyr proffesiynol BFB yn Aberhonddu yn ystod eu plentyndod ac fe berfformiodd chwech o'r rhain brif rolau neu rolau unawd yng nghynhyrchiad 2023 – esiampl i blant lleol sy'n cael dawnsio ochr yn ochr â dawnswyr proffesiynol a oedd unwaith yn fyfyrwyr bale lleol fel nhw!

Cefnogodd y grant garreg filltir bwysig arall i'r Cwmni - creu ei gerddorfa ei hun, Cerddorfa Ballet Gŵyl Aberhonddu, o dan faton arweinydd o Gaerdydd, Eugene Monteith. Cafodd 23 o gerddorion cerddorfaol proffesiynol eu recriwtio o ganolbarth a de Cymru, a llwyddodd BFB i sicrhau eu copi eu hunain o'r sgôr gerddorfaol.

Dangosodd perfformiadau Rhagfyr 2023 o The Nutcracker fod cynulleidfaoedd lleol yn awyddus i weld y bale Nadoligaidd hwn yn cael ei ailadrodd yn flynyddol dros yr ŵyl (fel y mae cwmnïau bale yn ei wneud ledled y byd) a'u bod yn barod i wario arian ar docynnau am noson allan yn y bale. Roedd nifer y tocynnau a werthwyd yn uwch nag ar gyfer 2022 - cyrhaeddodd cyfanswm y gwerthiannau ar gyfer y 5 perfformiad 1,839 - camp sylweddol i dref o tua 8,000 o drigolion.

Adborth y gynulleidfa, Nutcracker 2023:

“Hollol wych!! Diolch i'r ddau ohonoch a'ch tîm cyfan am sioe mor wych. Methu aros am 2024!”

“Dim ond eisiau dweud faint wnes i fwynhau'r Nutcracker. Rydych chi wedi creu rhywbeth mor arbennig, ac mae awyrgylch ac ansawdd y sioe gyfan yn adlewyrchu balchder a llawenydd y gymuned gyfan sy'n rhan ohoni.”

“Cawsom ein syfrdanu gan ansawdd y dawnsio, y gwisgoedd, y golygfeydd a'r gerddorfa.”

“Llongyfarchiadau ar gynhyrchiad gwych arall o'r Nutcracker! Diolch yn fawr iawn am gytuno i adael i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Aberhonddu wylio. Roedd gan y disgyblion olygfa wych o'r llwyfan a'r pydew – cawson nhw eu swyno o'r eiliad y gwnaethon nhw eistedd i lawr, a gwnaeth rhai ofyn yn syth a allen ni ddod eto flwyddyn nesal!”

“Roedd y Nutcracker ddoe yn llwyddiant ysgubol. Cymaint o glod i Aberhonddu – mae'n dyst i'r gwaith caled sydd yn amlwg wedi mynd i mewn i'r cynhyrchiad.”

“Rydyn ni newydd gyrraedd adref o'n hymweliad cyntaf erioed â bale byw ac rydyn ni wedi'n swyno'n llwyr! Am brofiad bythgofiadwy. Roedden ni wrth ein boddau - cawson ni ein hudo'n llwyr o'r dechrau i'r diwedd.”

6. Cyngor Cymuned Llangatwg: Cynllun Bro Llangatwg

Cyfanswm Grant CDC: £1,445


Yn 2023, cynhaliodd y Cyngor Cymuned ymgynghoriad ledled y gymuned i greu Cynllun Bro ar gyfer y 15 mlynedd nesaf - sydd bellach wedi'i gwblhau a'i fabwysiadu. Gwnaeth y grant CDC gefnogi deunyddiau hyrwyddo a chyfres o ymarferion ymgysylltu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio ar deithio llesol, siop/canolfan/caffi cymunedol a chynlluniau trafniadaeth gyhoeddus ac mae'n cydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i adeiladu ar y Cynllun a chreu Canllawiau Cynllunio Statudol – i'w mabwysiadu gobeithio erbyn diwedd 2024.

7. Ysgol y Bannau: Ystafell Ddosbarth Awyr Agored, Ardal Wylt

Cyfanswm Grant SDF £8,500 / Taliad Grant yn 2023-24: £3,400

Mae Ysgol y Bannau yn gweithio tuag at ddod yn Eco-Ysgol – mae ganddi eco-gyngor gweithredol sy'n ymwneud ag ailgylchu, ailwerthu gwisgoedd ysgol ail-law, gosod casgenni dŵr, biniau compost, polydwneli a gwelyau i dyfu bwyd. Mae clwb garddio wythnosol hefyd yn cael ei gefnogi gan rieni-wirfoddolwyr.

Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Ardal Wylt yn ofod chwarae gwylt a dysgu awyr agored 3 erw o faint sy'n seiliedig ar y cwricwlwm – mae wedi'i phrydlesu fel rhan o dir yr ysgol. Mae'r gofod yn galluogi plant i ddysgu a gwneud cysylltiadau cryf



â'r amgylchedd naturiol. Gwnaeth gwaith codi arian blaenorol alluogi'r ysgol i gysylltu ag artist lleol i weithio gyda phlant a rhieni i ddylunio'r gofod, ac i ddatblygu sgiliau staff wrth ddefnyddio'r awyr agored ar gyfer dysgu ac ymarfer creadigol.

Mae'r grant CDC yn cefnogi Cyfeillion yr Ysgol i osod ystafell ddosbarth awyr agored dymhorol yn yr Ardal Wylt, fel y gellir defnyddio'r ardal ym mhob tywydd. Bydd myfyrwyr Coleg Castell-nedd Port Talbot hefyd yn defnyddio'r ystafell ddosbarth un diwrnod yr wythnos. Mae'r strwythur yn cael ei wneud gan eco-gynllunydd / gwneuthurwr pebyll lleol (o Ben-pont) a disgwylir iddo bara o leiaf 10 mlynedd.

8. Ymddiriedolaeth Castell y Gelli: Awyr Dywyll Castell y Gelli

Cyfanswm Grant CDC £1,434

Am y tro cyntaf yn ei 900 mlynedd o hanes, mae Castell y Gelli bellach ym mherchnogaeth ymddiriedolaeth elusennol er budd y dref a'r gymuned ehangach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal rhaglen gelfyddydol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau, gweithdai, arddangosfeydd a gwyliau - yn ogystal â chefnogi preswylfeydd a phrosiectau celfyddydol sy'n cael eu gyrru gan faterion penodol. Tynnodd yr arddangosfa hon yn Oriel Castell y Gelli sylw at ddynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Wedi'i lansio yng Ngŵyl Aeaf y Gelli ac yn rhedeg i fis Ionawr 2024, roedd yn cynnwys gwaith yr artist a'r ffotograffydd Judy Goldhill, gan archwilio sut mae tywyllwch yn amwynder cynyddol brin. Yn yr unfed ganrif ar hugain, ychydig sydd wedi profi gwir dywyllwch - mae'r ffotograffau'n datgelu'r harddwch a'r ysblander sydd i'w cael yn ein hawyr dywyll. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys gweithdai am ddim ar y thema Awyr Dywyll i ysgolion cynradd lleol gan hefyd gynnwys Grŵp Celf Ieuencid y Gelli, sy'n cael ei gynnal ar foreau Sadwrn i bobl ifanc yn eu harddegau, gyda rhai sesiynau'n seiliedig ar y thema Awyr Dywyll gan ddefnyddio ffotograffiaeth fel cyfrwng.

DARK SKIES
ORIEL CASTELL Y GELLI / HAY CASTLE GALLERY

JUDY GOLDBHILL
CURATED BY RO SPANKIE

24 NOV - 7 JAN
AGOR/OPEN DAILY 10-4.30

 Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund
BANNAU BRYCHEINIOG

9. Y Fenni Wyrddach: Ffair 2023

Cyfanswm Grant CDC £1,943

Sefydlwyd Y Fenni Wyrddach gan grŵp o bobl leol sy'n poeni am yr argyfwng hinsawdd ac sydd eisiau rhannu gwybodaeth a syniadau ar sut y gall pobl fyw mewn ffordd fwy fforddiadwy a chynaliadwy, wyrddach a charbon isel. Y Ffair ym mis Hydref 2023 oedd digwyddiad lansio'r grŵp, gan godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a helpu pobl i ddeall y gallan nhw ac y dylen nhw gyfrannu. Daeth dros 2,000 o bobl, gan ddod ag unigolion a theuluoedd a chynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau, grwpiau a busnesau lleol ynghyd ag arbenigwyr i rannu gwybodaeth a syniadau. Roedd y pynciau dan sylw yn cynnwys:

- gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi
- teithio llesol a charbon isel
- dulliau gweithredu lleol a chynaliadwy o ran bwyd a ffermio
- diogelu natur a bioamrywiaeth
- gwneud penderfyniadau prynu gwyrdd a
- lleihau gwastraff trwy'r tair A: arbed, aildddefnyddio, ailgylchu.

Y gobaith yw y bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol – yn gymaint o ran o fywyd y Fenni â'r Wyl Fwyd.

10. Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Llan-gors: Tŷ Crwn y Maes Chwarae

Cyfanswm Grant CDC £700

Adeiladwyd y tŷ crwn replica ar dir ger Canolfan Gymunedol Llan-gors yn 2001, gyda'r dyluniad wedi'i ysbrydoli gan y gaer Oes Haearn leol ar Allt yr Esgair gerllaw. Roedd plant o'r ysgol gynradd leol a'r clwb ieuenctid lleol yn rhan o'r gwaith o'i adeiladu.

Bellach wedi'i ymgorffori mewn parc chwarae newydd i blant, gyda mynedfa a llwybrau gwastad sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â symudedd cyfyngedig, mae'r tŷ crwn wedi bod yn nodwedd boblogaidd iawn yn y pentref ers dros 20 mlynedd. Mae'n cael ei ddefnyddio gan wahanol grwpiau at ddibenion addysgol, gan gynnwys yr ysgol gynradd leol a'r clwb sgowntiaid. Mae ffermwr lleol wedi gwneud cegin fwd a bwrdd a meinciau picnic ar gyfer y tŷ, gan wella cyfleoedd chwarae. Roedd yr adeilad yn dal mewn cyflwr da heblaw am y ffrâm bren a oedd wedi'i difrodi gan bryfed pren - sy'n gyffredin mewn strwythur o'r oedran yma. Bydd disodli rhywfaint o'r pren a defnyddio triniaeth ar gyfer pryfed yn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu at ddefnydd cymunedol am flynyddoedd i ddod.

11. Llangattock Green Valleys CIC: Coetir Tŷ'r Ash, Crughywel

Cyfanswm Grant CDC: £3,570 / Taliad Grant yn 2023-24: £2,130

Wedi'i sefydlu yn 2009 i fynd i'r afael â newid hinsawdd ar lefel leol, mae LGV hefyd wedi ymgymryd â rheoli coetiroedd cymunedol ac yn prydlesu coetir Tŷ'r Ash gan Glanusk Estate, gan weithio mewn partneriaeth â Llangattock Community Woodlands i reoli'r safle sy'n rhedeg ochr yn ochr ag afon Wysg yng Nghrughywel. Mae ger man gwyrdd Pwll y Tarw a ddefnyddir gan lawer ac a reolir gan y Cyngor Tref ac mae'r llwybr troed cyhoeddus sy'n rhedeg trwy'r ddau safle yn boblogaidd iawn gyda phobl leol ac ymwelwyr.

Mae LGV wedi bod yn gweithio gyda Swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gwirfoddolwyr i reoli rhywogaethau ymledol a gwneud gwelliannau eraill ar y safle. Mae hyn wedi cynnwys clirio Jac y Neidiwr, atgyweirio ac agor llwybrau, a rheoli coetiroedd. Gwnaeth y grant CDC gefnogi gwaith clirio ar ardaloedd o dyfiant garw a rhywogaethau ymledol i greu dŵl ochr yn ochr â llwybr troed Glanusk at ddefnydd y gymuned ac i hyrwyddo mwy o fioamrywiaeth.

12. Criw Craggy, Parc Gwledig Craig y Nos

Grant CDC £4,760 / Taliad grant yn 2023-24: £917

Wedi'i sefydlu gan wirfoddolwyr Parc Gwledig Craig y Nos dros 10 mlynedd yn ôl, mae Criw Craggy wedi sefydlu Gardd Gymunedol lwyddiannus ar y safle ac yn cynnal partïon gwaith wythnosol i'w ddatblygu a'i gynnal fel ffocws ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol, ac i wella'r amgylchedd a'r cyfleusterau a ddarperir.



Mae'r grŵp wedi codi arian dros y blynyddoedd i brynu offer garddio, gosod gwelyau blodau, manau eistedd, llwybrau sy'n addas i gadeiriau olwyn, a sied storio. Maent yn gweithio gyda'r gymuned leol a grwpiau eraill i gynnig gweithgareddau garddwriaethol ac i ddarparu cyngor ar fywyd gwylt, offer, a blychod ystlumod ac adar. Maent hefyd yn cynnal diwrnodau ffoaduriaid a diwrnodau gweithgareddau rheolaidd i deuluoedd lleol, yn gweithio gyda phobl sy'n cael eu cefnogi gan Mind a grwpiau dementia ac wedi cyflwyno gŵyl adrodd straeon a cherddoriaeth yn y Parc Gwledig.

Galluogodd y grant CDC hwn i'r grŵp brynu polytwnnel hygyrch ac offer ychwanegol i'r rhai sy'n gweithio ar y safle, gan ddarparu amddiffyniad rhag y glaw a'r gwynt i alluogi garddio a dysgu beth bynnag fo'r tywydd – mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ymgysylltu â phobl fregus. Bydd y polytwnnel hefyd yn ymestyn y tymor tyfu ac yn cynyddu ystod ac argaeledd y cynnyrch.

13. DerynCoeh Cyf. : Mametz: Reawakened

Grant CDC £8,547 / Taliad grant yn 2023-24: £3,547

Fel rhan o'r digwyddiadau i goffâu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 2014, llwyfannodd National Theatre Wales gynhyrchiad clodwiw o ddrama Owen Sheers, Mametz (sydd bellach ar faes llafur drama Safon Uwch CBAC) mewn safle coetir hynafol ger Brynbuga. Ei thema yw ymosodiad Catrawd 38 (Cymru) ar goed Mametz yn Ffrainc yn 1914, lle cafodd 4,000 eu lladd neu eu hanafu, a rhoddodd gipolwg byw i gynulleidfaedd ar fywyd – a marwolaeth – yn ffosydd a meysydd brwydr y Somme.

Ers 2014, mae galw mawr wedi bod i ail-lwyfannu'r darn, ac asesodd yr astudiaeth ddichonoldeb helaeth hon y potensial i hyn ddigwydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn cydweithrediad ag ysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau celfyddydol. Nodwyd safleoedd cynhyrchu a phartneriaid posibl, ynghyd â ffynonellau cyllido posibl ac opsiynau ffrydio perfformiad. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar gael ar hyn o bryd ac mae partneriaid allweddol yn canolbwyntio ar eu hanghenion busnes eu hunain mewn hinsawdd gyllido heriol. Fodd bynnag, mae hwn wedi bod yn ymarfer gwerthuso a datblygu opsiynau gwerthfawr, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cynhyrchiad yn y dyfodol.

Effeithlonrwydd Ynni - Adeiladau Cymunedol

14. Neuadd Bentref Cwmdu

Grant CDC £10,000

Mae'r Neuadd wedi bod wrth galon bywyd y pentref ers 1953 - yn enwedig ers cau ysgol y pentref 10 mlynedd yn ôl. Mae'n lle i bobl ddod at ei gilydd mewn un lle i gymdeithasu, dathlu a chynllunio. Mae gwneuthuriad yr adeilad yn gadarn - mae gan y grŵp raglen codi arian wych ar gyfer cynnal a chadw, gan gynnwys stondin caffi cymunedol yng ngŵyl leol y Dyn Gwyrdd a Chlwb 100.

Er pa mor boblogaidd mae'r Neuadd, roedd hi'n amlwg bod maint y gegin yn atal darpar ddefnyddwyr - cadarnhaodd adborth hyn. Gwnaeth y grant CDC hwn (ynghyd ag Arian i Bawb a chyllid Adfer Covid) gefnogi'r gwaith o ailgynllunio ac ymestyn y gegin. Cafodd argymhellion archwiliad ynni eu mabwysiadu hefyd - roedd y contract adeiladu'n cynnig y cyfle gorau i sicrhau bod gwaith y gegin, y gwneuthuriad yn ei gyfanrwydd ac unrhyw offer newydd mor ynni-effeithlon â phosib. Roedd y mesurau'n cynnwys mwy o inswleiddio yn y llofft lle bo hynny'n bosibl, gosod gwresogyddion dŵr di-oed a goleuadau LED ac offer cegin ynni-effeithlon.

Mae'r gegin fwy wedi gwella cyfleusterau arlwyo ar gyfer grwpiau a digwyddiadau mwy ac, ynghyd ag effeithlonrwydd ynni, mae'n rhoi'r cyfle gorau i'r Neuadd fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.



15. Neuadd Bentref Felindre

Grant CDC £1,378

Wedi'i hariannu a'i hadeiladu gan ymdrech gymunedol yn y 1960au, mae'r Neuadd yn gwneud cyfraniad enfawr i fywyd y pentref. Mae'n cael ei ddefnyddio'n dda ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys dosbarthiadau ioga bob pythefnos a boreau coffi, ac mae'n ffocws ar gyfer dathliadau cymunedol.

Gwnaeth ymgynghoriad gyda llogwyr ym mis Rhagfyr 2021 amlygu problemau difrifol o ran cynhesu'r Neuadd yn ystod misoedd y gaeaf ac roedd grwpiau'n gyndyn o wneud archebion. Argymhellodd archwiliad ynni gamau blaenoriaeth, a gwnaeth grant gefnogi'r gwaith o osod mwy o inswleiddio yn yr atig a goleuadau LED. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn gwella lefelau cysur i holl ddefnyddwyr y Neuadd ac yn arwain at filiau ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr is.

16. Biwro Gwirfoddolwyr Aberhonddu

Grant CDC £4,006

Roedd canolfan y Biwro yn y Market Vaults yn anodd i'w gwresogi, gan wneud y gofod yn anghyfforddus i ymwelwyr a gweithwyr yn ystod y misoedd oerach. Yn dilyn archwiliad ynni, mabwysiadodd y grŵp argymhellion blaenoriaeth a disodli'r hen stôr-wresogyddion aneffeithlon gyda modelau cyfoes, atgyweirio'r prif ddrws allanol i leihau drafft a gosod gwresogyddion dŵr di-oed. Cafwyd arian hefyd gan Arian i Bawb. Gwnaed y gwaith gan gontractwyr lleol ac mae'r gofod bellach yn llawer mwy addas i ymwelwyr.

17. Toiledau Cymunedol Llangatwg

Grant CDC £5,000

Y toiledau ym Maes Hamdden Llangatwg yw'r unig gyfleusterau cyhoeddus yn Llangatwg, ac maen nhw'n adnodd hanfodol. Wedi'u hadeiladu yn y 1960au, nid oeddent wedi'u hinswleiddio, nid oedd ganddynt ddŵr poeth, ac roedden nhw'n agored i ddifrod gan rew a phibellau'n rhewi yn y gaeaf. Cadarnhaodd ymarfer ymgynghori cymunedol yn 2021 pa mor bwysig oedd y tir hamdden a'r cyfleusterau tai bach, a dywedodd mwyafrif clir o'r ymatebwyr nad oedd y bloc toiledau'n ddigon cynnes ac y dylai fod yna ddŵr poeth.

Gwnaeth y grant CDC gefnogi gwaith atgyweirio hanfodol ar y to, inswleiddio a gosod gwres lefel isel i sicrhau bod y tymheredd sylfaenol yn cael ei gadw uwchben y rhewbwynt. Roedd gwaith pellach a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol yn cynnwys gosod paneli solar a system batri, gwresogi dŵr a gwres isgoch i wella cysur defnyddwyr.

"Fe wnaethon ni gysylltu â'r CDC am gyllid rhannol i'n prosiect i wneud y toiledau cyhoeddus yn fwy cynaliadwy ac ynni-effeithlon. Roedd yn brosiect mawr gan gynnwys to newydd, inswleiddio, paneli solar, dŵr ynni-effeithlon, gwresogi isgoch a gwresogi dŵr," meddai'r Cyngorydd Tim Jones. "Doedd y gronfa CDC ddim yn ddigon mawr i ariannu'r prosiect cyfan, ond roedd ennill grant gan gynllun a oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd cymunedol ac amgylcheddol yn ffactor sylweddol ar gyfer ennill gwobr fwy gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol."

18. Neuadd Bentref Pontneddfechan

Grant CDC £1,685

Mae Neuadd Bentref Pontneddfechan, adeilad hanesyddol a fu unwaith yn rhan o'r Gwaith Powdwr Gwn lleol, wedi gwasanaethu ei chymuned leol ers blynnyddoedd lawer. Dyma'r unig fan cymunedol yn y pentref, ar ôl i'r ysgol a neuadd yr eglwys gau AC mae'n adnodd cyflenwi pwysig ar gyfer y darparwyr gweithgareddau awyr agored sy'n gweithio ym mro poblogaidd y Sgydau.

Amlygodd archwiliad ynni yn 2022 ystod o fesurau arbed ynni posibl ac mae'r rhain bellach yn cael eu gweithredu gan bwyllgor y Neuadd, gan gynnwys gosod goleuadau LED, falfiau rheiddiadur thermostatig a deunydd lagio pibellau. Cafodd y gwaith o osod drws ffrynt newydd ei gefnogi gan Gronfa Gymunedol Pen y Cymoedd.

19. Canolfan Gymunedol Hirwaun

Grant CDC £1,479

Mae'r Neuadd yn cynnig lle cymunedol i grwpiau lleol gynnal dosbarthiadau a chyfarfodydd, ac i breswylwyr gynnal eu digwyddiadau cymdeithasol fel partïon pen-blwydd a ffeiriau crefft. Y tu hwnt i hyn, mae'n cynnig help gyda bywyd bob dydd, gan gynnwys pecynnau llysiâu am ddim, cinio cawl am ddim ac ar brydiau pysgod a sglodion am ddim. Mae'r Neuadd yn gweithredu fel man gollwng i'r banc bwyd lleol ac mae ei rheolwyr yn cynnig cymorth lle bynnag y gallan nhw.

Gwnaeth y grant gefnogi'r gwaith o uwchraddio goleuadau allanol gyda goleuadau LED ynni-effeithlon. Roedd yr hen ffitiadau'n dyddio o adeiladu'r Neuadd yn 1996 ac nid oedd llawer ohonyn nhw'n gweithio. Mae'n lleoliad prysur bob nos, felly mae'r goleuadau newydd (sy'n gweithredu ar synwryddion) yn galluogi mynediad mwy diogel yn ogystal ag arbedion ar filiau a lleihau'r defnydd o danwydd ffosil.

20. APCBB – Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol

Grant CDC £10,500 / Taliad grant yn 2023-24: £2,805

Yn 2022, cyflwynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol raglen Effeithlonrwydd Ynni gyda'r nod o leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau CO2 ar gyfer adeiladau cymunedol. Gwnaeth y rhaglen honno gefnogi 20 adeilad cymunedol (neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol, pencadlysoedd grwpiau cymunedol, adeiladau a reolir gan gynghorau tref a chymuned) gydag archwiliadau ynni a chymorth grant i osod mesurau blaenoriaeth.

Gan adeiladu ar adborth cyfranogwyr a phrofiad darparu Cam 1, mae Cam 2 yn adeiladu ar y rhaglen ac yn ei hymestyn. Sicrhawyd cyllid Ffyniant Gyffredin o £83,378 gan Gyngor Sir Powys yn 2023-24 i gefnogi'r gwaith hwn ar gyfer 10-12 o grwpiau cymunedol yn y sir, ynghyd â gweithdai adeiladu capasiti a chynghor technegol wedi'i deilwra. Mae'r grant CDC hwn yn sicrhau bod cyfleoedd tebyg ar gael ar gyfer hyd at 5 adeilad cymunedol yn siroedd eraill y Parc Cenedlaethol (e.e. Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot). Bydd grwpiau'n cael eu hannog i siarad â'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd, gan rannu sgiliau a phrofiadau.



21. Elusen Edmund Jones: Tŷ Steeple, Aberhonddu

Cronfa Ffyniant Gyffredin: £5,000

Wedi'i sefydlu yn 1674, mae'r elusen yn berchen ar Dŷ Steeple ar Stryd Fawr Aberhonddu. Defnyddir yr incwm rhent o ofod swyddfa a manwerthu i ariannu grantiau i bobl ifanc dan 25 oed yn Aberhonddu i gynorthwyo gyda chostau addysg bellach ac uwch a chyda threuliau yr eir iddynt mewn prentisiaethau.

Gwnaeth grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin gefnogi gweithrediad argymhellion blaenoriaethol archwiliad ynni. Roedd y brif elfen yn cynnwys disodli'r hen foeler nwy a gondemniwyd (amcangyfrifwyd ei fod yn 70% effeithlon) am foeler nwy newydd sy'n rhedeg ar effeithlonrwydd o tua 90%, ynghyd â rheolaethau craff. Gosodwyd gwresogyddion dŵr di-oed ar fasnau dwylo, gan ddileu'r angen i gynhesu tanc o ddŵr. Cynyddwyd insiwleiddiad y to o 100mm i 300mm, a disodlwyd yr holl oleuadau sribed mewn coridorau gan fylbiau LED ynni-effeithlon.

Dadansoddwyd y defnydd o ynni dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd yn parhau i gael ei fonitro. Bydd gostyngiad yn y defnydd o ynni yn helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd, a bydd yr arbedion a wneir yn eu tro yn cael eu trosglwyddo i fuddiolwyr yr elusen.

Prosiectau Treftadaeth

22. Cyngor Cymuned Bro Grwyne: Ffynnon Ddŵr Llangenni

Cyfanswm Grant CDC: £3,841

Mae Cyngor Cymuned Bro Grwyne yn cynrychioli pentrefi Glangrwyne, Llanbedr a Llangenni, ynghyd â chymunedau gwledig Patrisio a Grwyne Fawr. Fel rhan o raglen i amlygu a hyrwyddo tirnodau treftadaeth leol, mae codau QR wedi'u gosod ar bwyntiau allweddol - mae Ffynnon Dŵr Yfed Llangenni yng nghanol y pentref yn un o'r rhain.

Cafodd y Ffynnon Restredig Gradd II ei chodi gan Andrew Doyle o Dŷ Pendarren i goffâu jiwbilî aur y frenhines Fictoria. Mae'n cynnwys heini o feini gyda chilfach fas, gyda thâl maen copog ar ei ben. Mae gan y gilfach gafn carreg bas, carreg wedi'i hysgythru yn 1887 a thap. Erbyn 2022, nid oedd y tap wedi gweithio am flynyddoedd lawer (roedd y ffynnon wedi sychu) ac roedd y strwythur yn adfeilledig - roedd angen gweithredu! Sicrhawyd Caniatâd Adeilad Rhestredig i gael gwared ag eiddew, aildrefnu'r gwaith cerrig lle bo angen ac ailbwyntio mewn mortar calch, ac i gysylltu dŵr prif gyflenwad gyda thap anysgytowl o arddull briodol i leihau'r dŵr a gollir. Mae'r cyfleuster newydd yn darparu ffynhonnell am ddim o ddŵr yfed i bobl leol, cerddwyr a chŵn, gan annog y defnydd o gynwysyddion y gellir eu hail-lenwi yn hytrach na phlastigau untro, gan felly leihau sbwriel - ac mae'n dangos pa mor hanfodol oedd/yw cyflenwad dŵr glân sylfaenol i drigolion ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol, yn y gorffennol a'r presennol.



23. Canolfan Wybodaeth ac Adnoddau Talgarth (TIRC): Llyfr Talgarth Drwy'r Oesoedd


Cyfanswm Grant CDC £1,885

Mae'r Ganolfan yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i bobl leol ac ymwelwyr, gan hyrwyddo twristiaeth. Mae'r siop yng nghanol y dref yn adnodd gwerthfawr, yn cynnig amrywiaeth o daflenni a llyfrau cerdded a threftadaeth yn ymwneud â hanes cymdeithasol Talgarth, y Mynyddoedd Duon a'r ardal leol ehangach.

Mae'r grŵp wedi gweithio'n agos gyda'r gwirfoddolwr lleol, Adam Price ac eraill i ddiogelu a choladu archif gynyddol (dros 100 ar hyn o bryd) o luniau gwerthfawr o fywyd bob dydd yn Nhalgarth o'r 1940au i'r 1990au – a roddwyd yn bennaf gan deuluoedd lleol. Er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu diogelu fel cofnod hanfodol, mae lluniau'n cael eu sganio a'u storio'n ddigidol, ac mae rhai o'r rhai mwyaf diddorol wedi cael eu cynnwys mewn llyfr. Mae pob pennod yn ymdrin â thema wahanol – siopau a busnesau, marchnadoedd ac amaethyddiaeth – yn dogfennu gorffennol diweddar y dref a'r ardal gyfagos. Mae hyn yn bwysig nid yn unig i Dalgarth, ond i ardal ehangach y Mynyddoedd Duon/y Gororau/Canolbarth Cymru fel darn o hanes cymdeithasol – gan roi cipolwg pwysig ar eiliadau mewn amser i genedlaethau hŷn eu cofio a chenedlaethau iau/y dyfodol eu darganfod.

Mae Casgliad y Werin Cymru wedi darparu cyngor technegol, a byddant yn storio'r delweddau yn y tymor hwy (yn amodol ar gydsyniad cyfranwyr), yn hygyrch i'r cyhoedd ar-lein.

Wedi'i ddylunio a'i argraffu gan fusnesau lleol, mae'r llyfr ar gael yn y Ganolfan Adnoddau (sydd wedi gweld mwy o ymwelwyr), mewn siopau lleol eraill ac ar Amazon. Bydd incwm o werthiant yn cael ei fuddsoddi mewn ailbrintiau neu argraffiadau pellach.



Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn - yn lleol a gan bobl ledled y DU. Mae diddordeb pobl mewn hanes lleol yn fyw iawn!

"Mae'r prosiect yn helpu i ddod â'r gymuned at ei gilydd."

"Mae eich ysbrydoliaeth a'ch gwaith caled wedi rhoi hwb i'n tref ar adeg dyngedfennol. Mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr."

"Wrth fy modd - mor falch fod fy rhieni yn ymddangos yn y llyfr."

"Atgofion HYFRYD o'r blynyddoedd a fu"

"Roeddwn i'n adnabod llawer o wynebau a daeth â llawer o atgofion hapus yn ôl. Trueni nad yw mam a dad yn fyw i'w weld – bydden nhw wedi bod wrth eu boddau."

"Llongyfarchiadau ar y llyfr - mae'n wych. Roedd mor ddiddorol edrych ar yr hen luniau a hel atgofion am 'slawer dydd. Rwy'n gwerthfawrogi'r holl waith. Mae'n hyfryd."

"Rydw i wedi prynu copi ac mae'n wych! Cymaint o atgofion hyfryd. Rwy'n anfon copi at fy nheulu yn Awstralia!"

24. Tafarn y Bull's Head: Atgyweiriadau Hanfodol

Grant CDC £5,000 / Taliad grant yn 2023-24: £2,159

Wedi'i adeiladu ddechrau'r 19eg ganrif, mae'r Bull's Head Hotel, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, yn adeilad trillawr amlwg ar gornel Priory Hill a'r Struet, wrth ymyl Pont y Priordy dros Afon Honddu. Mae wedi'i farcio a'i enwi fel y Bull's Head Inn ar fap Tref Aberhonddu 1834. Hyd nes iddi gau ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd yn un o dafarndai nodedig y dref ac mae wedi dal ei gafael ar lawer o'i chymeriad gwreiddiol, er ei bod wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac angen ei hadfer yn sylweddol.

Mae'r perchennog yn bwriadu adfer yr adeilad i'w hen ogoniant a'i ailagor fel tafarn maes o law gyda llety byw ar y lloriau uchaf. Cyfrannodd y grant at ddisodli teils ffeibr sment o'r 1980au gyda llechi Cymreig wedi'u hadfer ac atgyweirio'r ffenestri codi gwreiddiol.


Mae'r prosiect ehangach yn cynnwys gwarchod clwyd ystlumod pedol lleiaf gwarchodedig yn y seler yn ogystal ag ymgorffori blychau bronwennod y dŵr a siglenni llwyd o dan feranda glan yr afon.

25. Ymddiriedolaeth Castell y Gelli: Remarkable Castles Near Hay on Wye

Cyfanswm Grant CDC £768

Gan adeiladu ar lwyddiant y llyfryn 'Remarkable Churches near Hay on Wye' yn 2022, bu'r awduron Elizabeth Bingham a Mary Morgan yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Castell y Gelli i ddatblygu a chyhoeddi rhif dau yn y gyfres - Remarkable Castles.

Yn dilyn fformat tebyg ac ar werth yn lleol, mae'r llyfryn yn cynnwys 23 o gestyll ac yn disgrifio eu harwyddocâd i Gymru a'i gororau. Mae pump o'r 23 o fewn neu'n agos at ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - Y Gelli ei hun, Y Fenni, Bronllys, Castell Dinas, a Thretŵr.



26. Cyfeillion Eglwys Llanddetai: Porth Mynwent Eglwys Llanddetai

Cyfanswm Grant CDC £2,000

Wedi'i sefydlu yn 2022, mae'r Cyfeillion yn grŵp bach o drigolion lleol sydd, er nad ydynt yn aelodau o gynulleidfa Eglwys Llanddetai, yn ei chefnogi'n ariannol ac yn rhoi amser i helpu gyda champau gweithredu penodol. Mae'r eglwys a'i mynwent wedi'u lleoli ar lannau afon Wysg, daflad carreg o lwybr halio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Maent wedi gwasanaethu cymuned Tal-y-bont ar Wysg am y 1000 mlynedd diwethaf yn fras.

Roedd adfer y porth mynwent adfeilledig yn rhan annatod o brosiect mynwent ehangach i hyrwyddo a gwneud yr ardal yn fwy hygyrch ac ecolegol amrywiol. Roedd angen gwaith adnewyddu brys ar y strwythur hanesyddol pwysig hwn cyn i'r elfennau a oedd yn weddill gael eu colli am byth. Roedd y to derw wedi diflannu, ac roedd y porth wedi'i symud i'w gadw'n ddiogel gan nad oedd modd ei ddefnyddio mwyach. Er bod y brif ffrâm strwythurol mewn cyflwr gweddol dda roedd wedi bod yn agored i'r elfennau ers peth amser ac roedd angen ei gwarchod ar frys gyda tho newydd. Crefftwyr arbenigol lleol sydd wedi gwneud y gwaith adfer manwl, gan sbleisio elfennau derw newydd i'r strwythur ac ail-greu'r to derw. Mae'r hen borth wedi cael ei gopïo a'i ailosod, y muriau carreg amgylchynol wedi'u sefydlogi, a'r cymalau wedi eu tynnu a'u hail-growthio â morter calch.



27. Maesygartha Village Life: Blwch Ffôn Maesygartha

Cyfanswm Grant CDC £3,031

Pentrefan yng Ngheunant Clydach, ger Gilwern yn nwyrain y Parc Cenedlaethol, yw Maesygartha. Sefydlwyd Maesygartha Village Life yn 2019 mewn ymateb i brosiect deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd a phenderfyniad gan BT i dynnu'r ffôn talu cyhoeddus yn ôl (a brynwyd wedyn gan Gyngor Cymuned Llanelli). Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd agored a arweiniodd at gynllun datblygu i wella'r pentref a'r amgylchedd lleol, gan gynnwys adnewyddu'r blwch ffôn.

Arweiniodd y cyfnod clo at bobl yn dechrau defnyddio'r blwch ffôn fel man cyfnewid a gollwng. Crëwyd grŵp WhatsApp yn y pentref a arweiniodd at drafodaethau newydd am ddyfodol tymor hwy y blwch ffôn adfeiliedig - yr unig adeilad yn y pentref sy'n gyfleuster cyhoeddus ac nid yn dŷ preifat.

Mae gwirfoddolwyr y pentref wedi gweithio gyda'i gilydd i atgyweirio'r llawr ac adnewyddu cragen y blwch gan ddefnyddio rhannau a deunyddiau gan gyflenwr swyddogol BT. Cafodd tu mewn newydd ei greu gyda chefnwrdd a fydd yn dal diffibriliwr ynghyd â phaneli gwybodaeth (gyda dalwyr taflenni) gyda darluniau mawr o'r pentref (wedi'u cynllunio gan y cwmni lleol Art Matters) yn tynnu sylw at nodweddion a thai'r pentref a manau o ddi-ddordeb yn yr ardaloedd cyfagos (Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, pinacl calchfaen y Bugail Unig ac ati) ac ambell lwybr cerdded lleol. Mae'r blwch wedi ei drawsnewid yn ased i'r pentref ac yn symbol o le a hunaniaeth gymunedol - gan wella'r strydun lleol a darparu man gwybodaeth i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal.





Adborth

Adborth Gan Ymgeiswyr

“Roedd y broses gyda'r APCBB yn weddol syml, ac fe wnaethon ni fwynhau'r cyfle i gyflwyno ein hachos yn uniongyrchol i'r Tîm ac ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddyn nhw. Mewn gwirionedd, roedd delio â'r staff yn yr APCBB yn brofiad arbennig o gadarnhaol - gyda llawer o'r sefydliadau dyfarnu grantiau mwy, does dim rhyw lawer o gyffyrddiad personol - felly gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i ni. Ar y cyfan, roedd derbyn grant gan yr APCBB yn brofiad rhagorol, ac felly bydden ni'n annog eraill i fynd amdani!”

Achub Mynydd Aberhonddu

“Mae gwaith ar y raddfa hon yn heriol. Mae'n wych pan mae cyrff dyfarnu grantiau lleol yn gweld gwerth y gwaith hwn i'r ardal leol. Mae'r broses ymgeisio yn hawdd ei deall ac, os oes cwestiynau wedi codi, mae'r gefnogaeth gan y tîm CDC wedi bod yn wych, gan ein tywys trwy bob cam o'r broses ar hyd y ffordd.”

Bale Gŵyl Aberhonddu

“Roedd y broses ymgeisio gyfan yn hynod o syml (diolch i'r canllaw gan y swyddogion). Ni fyddai Ffynnon Ddŵr Llangenni wedi gallu dechrau gweithio eto heb yr arian a dderbyniwyd gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Diolch yn fawr iawn.”

Cyngor Cymuned Dyffryn Grwyne

“Gwnaeth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ganiatáu i ni gyflawni prosiect a fyddai fel arall yn dal i fod ar y cam cynllunio. Roedd y swyddogion mor gymwynasgar trwy bob cam o'r cais, a wnaeth y cyfan mor syml. Mae'n gynllun gwych sy'n caniatáu i brosiectau llai ffynnu. Diolch!”

Ymddiriedolaeth Castell y Gelli

“Y peth gorau i'w ddweud am y gronfa CDC yw bod y broses ymgeisio yn syml, ac rydych chi'n cael eich cefnogi'n dda gan y gweinyddwyr grantiau, sy'n gwneud y broses o wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau cymunedol yn hawdd.”

Cyngor Cymuned Llangatwg.

“Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n sefydliad, nid yn unig gyda phris prynu'r boeler newydd a'r offer, gwaith uwchraddio ac inswleiddio cysylltiedig, ond hefyd i'r costau rhedeg parhaus ar gyfer yr adeilad. Y mis hwn, am y tro cyntaf erioed, cawsom fil nwy a ddywedodd ein bod wedi defnyddio 0 Kw/awr o nwy, ac roedd y bil trydan yn isel o hyd. Rydyn ni wrth ein bodd!”

“Byddwn i'n sicr yn argymhell gwneud cais am y grant; mae aelodau'r tîm CDC yn rhoi cefnogaeth wych, ac yn gwneud i'r broses gyfan ymddangos yn syml iawn!”

Elusen Edmund Jones, Aberhonddu

“Roedd y grant i helpu i osod gwres a goleuadau mwy effeithlon yn golygu bod adeilad hynafol sydd wedi gwasanaethu'r cyhoedd ers cannoedd o flynyddoedd yn gallu darparu lle o gynhesrwydd a chysur dros fisoedd y gaeaf. Roedd y broses ymgeisio yn gymharol syml, a datryswyd unrhyw ymholiadau trwy siarad â swyddogion. Byddwn i'n cynghori unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais i siarad â'r staff - maen nhw yno i helpu a chefnogi. Mae gwneud cais yn aml yn 'broses frawychus' - yn enwedig am y tro cyntaf, felly roedd yn adeiladol cael person cymwynasgar i siarad am bethau wrth wneud cais.”

Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu

Photography Peter Rhys Williams and Bannau Brycheiniog National Park

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg



Bannau
Brycheiniog